

Sesiwn 6 – Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

Yr Amgylchedd Naturiol

- 1. A yw Polisi PS16 a Thabl 23 yn darparu fframwaith polisi strategol priodol i ystyried cynigion datblygu ac amddiffyn a gwarchod yr amgylchedd naturiol, ac yn enwedig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)?**

O ystyried y polisiâu tirwedd eraill yn y cynllun e.e. AMG2 *Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn unigryw i gymeriad y dirwedd leol*, teimlir o roi popeth yn y glorian, bod y fframwaith polisi yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol.

- 2. A yw'r amddiffyniad a roddir i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) a restrir yn yr esboniad i Bolisi AMG1 wedi'i ategu gan dystiolaeth gadarn?**

Mater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i'w esbonio yw hwn.

- a. A yw'r Cynllun yn gyson â chanfyddiadau ac argymhellion Adolygiad LUC o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd ac Ynys Môn?**

Mater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i'w esbonio yw hwn.

- b. A yw Polisi AMG1 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer ystyried cynigion datblygu yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu gynigion datblygu sydd â chysylltiad agos â'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig?**

Nid yw'n ofyn penodol yn y polisi cenedlaethol i ddefnyddio'r polisi Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) i ystyried effaith cynigion datblygu y tu allan i'r ATA. Mater i'r awdurdodau lleol i'w ystyried yw hwn.

- c. A yw'r ymagwedd at Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn gyson â'r polisi cenedlaethol ar ddynodiadau tirwedd lleol (dynodiadau Anstatudol)?**

O safbwynt polisi AMG1, nid yw'n glir beth yw goblygiadau o safbwynt cyflenwi datblygiad a'i hyfywedd trwy ofyn am gynigion i roi sylw i a bod yn gyson â'r 'Datganiad o Werth Arwyddocâd'. Byddai esboniad yn fuddiol.

Ym mharagraff 7.5.11 y cynllun, dywedir y gellir cael copïau o'r 'datganiadau o werth arwyddocâd' trwy gysylltu â'r swyddfa gynllunio. Dylid eu cyhoeddi a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd. Nid yw'n glir chwaith sut maen nhw'n berthnasol i adroddiadau'r ATA na beth yw eu perthynas â'r rhesymau dros ddynodi ATA. Dylid gwneud hynny'n glir.

3. A yw Polisi AMG2 yn egluro ei nodau a'i amcanion yn ddigonol ar gyfer amddiffyn a gwarchod cymeriad y dirwedd a ddiffiniwyd o fewn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT)?

Dywed adran 5.3.11 PCC fod safleoedd anstatudol lleol yn gallu ychwanegu at werth y broses gynllunio, yn enwedig os dewisir dynodiadau o'r fath ar ôl clywed barn y gymuned a'u bod yn adlewyrchu gwerthoedd y gymuned. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddynodi ardaloedd sydd â gwerth cadwraethol go iawn, pan fo lle da i gredu na fyddai polisiâu cynllunio cyffredin yn rhoi'r amddiffyniad sydd ei angen. Ni ddylai dynodiadau o'r fath gyfyngu'n afresymol ar ddatblygiad derbyniol.

Teimlir y gallai maen prawf 2 y polisi fod yn orgyfyngus ac y dylid ei ailddrafftio i wireddu bwriad y polisi heb gyfyngu'n afresymol ar ddatblygiad.

a. A yw'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y cyfeirir atynt ym Mholisi AMG2 wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn a chyfredol?

Mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw hwn i'w esbonio.

4. A yw Polisi AMG3 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer ystyried cynigion datblygu ar yr arfordir, gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth? A yw'r Polisi'n cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol?

Mae PCC (paragraff 5.7.4) yn datgan y dylai polisiâu'r CDLI anelu at amddiffyn neu wella cymeriad a thirwedd arfordir sydd heb ei ddatblygu. Dylid ymgorffori'r polisiâu sydd i'w harfer yn ardaloedd yr Arfordir Treftadaeth mewn cynlluniau datblygu. Nid yw dynodiad fel arfordir treftadaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar statws ardal o safbwynt cynllunio. Fodd bynnag, gallai nodweddion a gyfrannodd at ddynodi'r ardal fod yn bwysig wrth lunio polisiâu cynllunio neu wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu.

Nid oes polisiâu ym Mholisi AMG3 sy'n ymwneud yn benodol â'r arfordir treftadaeth ond mae'n cymhwyso'r polisi cyffredinol ar amddiffyn arfordiroedd i'r ardal hon. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn esbonio sut mae'r polisi'n mynd i'r afael â'r elfen treftadaeth.

Yn ôl Aran 5.7.7 PCC, mae gofyn dangos lleoliadau sy'n addas ar gyfer eu datblygu, sy'n anaddas ar gyfer eu datblygu neu sy'n destun cyfyngiadau arwyddocaol ar y Map Cynigion. Felly, dylid dangos Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol.

5. A yw'r Cynllun yn gwarchod yr amgylchedd naturiol yn effeithiol? A yw'r ymagwedd a ddefnyddir yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn gyson â phennod 5 Polisi Cynllunio Cymru?

Yn ôl adran 5.4.5 PCC, dylai'r cynllun datblygu: ddarparu meini prawf i'w defnyddio i asesu datblygiad sy'n effeithio ar y gwahanol fathau o safleoedd dynodedig, gan adlewyrchu eu harwyddocâd cymharol. Nid yw Polisi PS16 Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol yn cynnig meini prawf ar gyfer hierarchaeth safleoedd cadwraeth natur a dylid mynd i'r afael â hyn. Nodir fodd bynnag, bod Polisi AMG4 yn ymdrin â safleoedd lleol.

6. A yw'r Cynllun, trwy Bolisiau AMG4 ac AMG5, yn darparu lefel briodol o warchodaeth i safleoedd statudol ac anstatudol sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth leol a chadwraeth natur?

Mae angen mwy o eglurder yn y polisiau sy'n ymdrin â safleoedd bioamrywiaeth lleol, AMG4 ac AMG5. Nid wy'n glir beth yn union yw safle bioamrywiaeth lleol. A yw'n cynnwys SINCs gan nad oes cyfeiriad penodol atynt o fewn y polisiau, a Gwarchodfeydd Natur Lleol (er bod Polisi AMG5 yn cyfeirio'n benodol at y rhain). Mae angen eglurder hefyd ynghylch beth yw safle bywyd gwyllt ym Mholisi AMG5 neu safle bywyd gwyllt heb ei asesu. Dangosir y ddau ar y map cyfyngiadau.

Mae Polisi PS16 yn ei gwneud yn ofynnol gwarchod lleoliadau holl safleoedd amgylchedd naturiol. Nid yw hyn yn gyson â pholisi cenedlaethol.

7. A yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac a yw'n cynnwys dulliau eglur a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro amcanion y Cynllun?

Mae'r fframwaith monitro'n rhan bwysig o broses paratoi'r CDLI gan ei fod yn galluogi'r awdurdod i asesu effeithiolrwydd a gweithrediad polisiau allweddol i roi strategaeth y CDLI ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddiweddarau a diwygio'r fframwaith monitro.

8. Unrhyw faterion eraill

Enghreifftiau drafftio:

Mae maen prawf 5 Polisi ARNA1 yn cyfeirio at estyniadau preswyl. Ond roedd newid â ffocws NF38 wedi newid pennawd yr adran i adeiladau dibreswyl newydd neu bresennol.

Holi ynghylch defnyddio'r ymadroddion 'buddion statudol' i gymryd lle 'buddion cymunedol', 'cyfraniadau at isadeiledd cymunedol' a 'rhwymedigaethau cynllunio' mewn cysylltiad ag adran 106 neu CIL.

Asedau Treftadaeth

1. A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith digonol ar gyfer gwarchod asedau treftadaeth?

Mae maen prawf Polisi AT1 yn cyfeirio at yr angen i ystyried asesiadau manwl eraill a fabwysiadwyd gan yr ACLI. Nid yw'n glir beth ydyn nhw na beth allan nhw fod. Byddai'n ddefnyddiol felly gweld mwy o fanylder yn y testun esboniadol.

O fewn maen prawf 7 ym Mholisi AT2, nid yw'n glir beth yw'r 'polisiau cynllunio eraill'. Dylai'r testun esboniadol roi mwy o eglurder.

Mae AT3 yn cyfeirio at asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol; dylai'r testun esboniadol egluro beth yw'r safleoedd hyn, er enghraifft, os oes rhestr leol ac ati. Byddai hynny'n gwneud y polisi'n gliriach.

Dylai AT4 gynnwys lleoliadau safleoedd o bwys archeolegol yn unol â PCC 6.4.2, sef y dylai cynlluniau datblygu adlewyrchu polisiau cenedlaethol ar gyfer gwarchod a gwella safleoedd o fudd archeolegol a'u lleoliadau.... Gallai gweddillion o'r fath, ac o dan amgylchiadau priodol, gweddillion archeolegol eraill sydd heb eu rhestru sydd o fwy o bwys lleol, a'u lleoliadau, gael eu nodi mewn cynlluniau datblygu fel rhai sy'n neilltuol o deilwng o gael eu cadw.

O fewn y cynllun, mae'r term 'ased treftadaeth' yn cael ei ddefnyddio a'i ddiffinio yn adran 7.5.29 er mai'r term 'ased hanesyddol' sy'n cael ei ddefnyddio ym mholisi ISA1. Mae angen esbonio beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau derm.

Dywed Tabl 25 bod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cael eu rhestru yn atodiad 7. Nid oes rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd yn atodiad 7.

2. A yw'r Cynllun yn gyson â gofynion deddfwriaeth arall a'r polisi cynllunio cenedlaethol?

O ystyried popeth, credir bod fframwaith y polisi ar gyfer asedau treftadaeth yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol. Mater i'r ACLI yw gofyn barn am y gofynion deddfwriaethol.

3. Unrhyw faterion eraill

Mannau agored a hamddena

Mae angen eglurder ynghylch Polisi ISA2 sy'n caniatáu cyfleusterau cymunedol sy'n ffinio â ffiniau datblygu. Byddai hynny fodd bynnag yn galluogi datblygu tafarndai a theatrau ac ati yng nghefn gwlad.